MENTER IAITH MAELOR

Y Tŵr
Saith Seren
18 Stryt Gaer
Wrecsam
LL13 8BG

01978 363791

sioned@menteriaithmaelor.org

7fed Ionawr 2014

Annwyl Gyfaill,

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Menter Maelor 2013

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Menter Iaith Maelor ar **Nos Lun 27ain Ionawr am 7.00yh** yn **Ysgol Bro Alun, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4NG**.

Ein gwestai gwadd eleni fydd **Cefin Campbell,** fydd yn siarad am yr. **'Adolygiad o'r Mentrau Iaith: Rhai Canfyddiadau Cyffredinol'.** Roedd Cefin yn rhan o'r tîm fu'n cynnal yr adolygiad o'r Mentrau Iaith a'r Cynlluniau Gweithredu Iaith i Lywodraeth Cymru yn ddiweddar. Mi fydd yn cyflwyno rhai o brif ganfyddiadau cyffredinol yr adolygiad fydd yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn hon.

Mi fydd yna gyfle hefyd i siarad â staff a Chyfarwyddwr y Fenter a thrafod eich syniadau am y fath weithgareddau neu brosiectau yr hoffech ein gweld yn darparu yn y dyfodol.

Os hoffech dderbyn copi o Adroddiad Blynyddol diweddaraf Menter Iaith Maelor gysylltwch â ni trwy'r manylion isod neu gellir ei lawr lwytho oddi ar wefan y Fenter ar www.menteriaithmaelor.org yno hefyd ceir copïau o'r agenda a chofnodion y llynedd.

Buaswn yn ddiolchgar petaech yn medru cadarnhau os yr ydych yn bwriadu bod yn bresennol yn y cyfarfod drwy e-bostio ni ar sioned@menteriaithmaelor.org neu ffonio 01978 363791.

Yr eiddoch yn gywir,

Gill Stephen
Rheolwr